Gwasanaeth Maethu Dewi Sant | St David's Fostering Service

# EIN PWRPAS: CANLLAW I BAWB

## GWASANAETH MAETHU DEWI SANT: YR HYN A WNAWN

Rydym am i bob plentyn gael teulu cariadus lle gallant dyfu a ffynnu. Rydym yn gwneud hyn drwy helpu i ddod o hyd i deuluoedd maeth i blant sydd angen teulu dros dro i fyw gyda nhw nes y gallant ddychwelyd at eu teulu geni neu ddod o hyd i gartref newydd am byth.

**Recriwtio a hyfforddi:** Rydym yn dod o hyd i bobl sydd eisiau maethu, yn eu hyfforddi ac yn eu hasesu.
**Cymorth Parhaus:** Rydym yn darparu cymorth cyn ac yn ystod lleoliad maeth, gan gynnwys cynnig cyfarfodydd grŵp a digwyddiadau hwyl i'r teulu.
**Trefniadau Cyswllt:** Rydym yn helpu i gynnal perthnasoedd ag aelodau'r teulu geni.

Drwy ein gwasanaeth maethu rydym yn cefnogi **Sefydlogrwydd Cynnar Cymru,** sy'n golygu'n syml y gellir cymeradwyo rhieni maeth fel mabwysiadwyr hefyd ac os daw mabwysiadu yn gynllun i blentyn, gall y rhieni maeth ddewis mabwysiadu'r plentyn.

Rydym hefyd yn cynnig **Pontio Therapiwtig** i helpu i ddeall a chefnogi anghenion plant a'u paratoi ar gyfer symud i gartref maeth newydd neu ddychwelyd i fyw gyda rhieni geni.



### Ein Gwasanaeth AFKA Cymru

Yn cynnig **Hyfforddiant, Ymgynghoriaeth a Chymorth** i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â mabwysiadu, maethu a gofal teuluol.

## PWY RYDYM YN EU CEFNOGI

**Darpar Ofalwyr Maeth:** Gall unrhyw un dros 21 oed sydd â chartref cariadus ac sydd eisiau helpu plant wneud cais i fod yn rhiant maeth. Rydym yn croesawu pobl o bob cefndir a rhywedd.

**Plant:** Rydym yn cefnogi plant o'u genedigaeth hyd at 12 oed.

### Ein Gwasanaeth Mabwysiadu

Mae ein gwasanaeth mabwysiadu yn **recriwtio, hyfforddi ac asesu** darpar fabwysiadwyr gan helpu i ddod o hyd i deuluoedd i blant yng Nghymru a'u hadeiladu. Mae'n cynnig cefnogaeth barhaus i blant a theuluoedd gan helpu plant i dyfu a ffynnu.



## SUT RYDYM YN HELPU

**Hyfforddiant:** Rydym yn darparu hyfforddiant i'r rhai sydd am ddod yn rhieni maeth

**Cymorth:** Rydym yn gwrando ar yr hyn sydd gennych chi a'ch teulu i'w ddweud ac yn gweithio i sicrhau bod eich anghenion yn cael eu diwallu, gan gynnig cyngor ac arweiniad.

**Canolbwyntio ar y plentyn:** Rydym yn gweithio i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu a'u bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi.

## YR HYN RYDYN NI'N EI GYNNIG

- Gweithiwr cymdeithasol ymroddedig
- Hyfforddiant i ddeall gofal maeth
- Cymorth i ddiwallu anghenion plant a chynnal perthynas â'u teulu geni
- Mynediad i ddigwyddiadau cymdeithasol a chymuned o ofalwyr maeth.

## DIOGELU

Rydym wedi ymrwymo i gadw pawb yn ddiogel ac yn cynnig hyfforddiant ar ddiogelu a datblygiad plant.

## EIN TÎM

**Cymwysterau Staff**
**Arweinwyr Profiadol:** Mae ein tîm yn cynnwys gweithwyr proffesiynol â graddau uwch mewn gwaith cymdeithasol a rheolaeth.
**Gweithwyr Cymdeithasol Arbenigol:** Mae ein gweithwyr cymdeithasol wedi'u hyfforddi mewn technegau therapiwtig i gefnogi teuluoedd.
**Goruchwyliaeth a Hyfforddiant**

- **Goruchwyliaeth Reolaidd:** Mae ein tîm yn derbyn goruchwyliaeth a hyfforddiant rheolaidd i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel.
- **Dysgu Parhaus:** Rydym yn annog staff i wella eu sgiliau'n barhaus trwy hyfforddiant ychwanegol.

## CADW COFNODION

- **Storio Diogel:** Rydym yn cadw'r holl gofnodion yn ddiogel ac yn saff yn unol â chyfreithiau diogelu data.
- Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd i ddarganfod sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth yma

## ADBORTH A GWELLIANT

- **Gwrando Arnoch Chi:** Rydym yn defnyddio adborth gan deuluoedd a staff i wella ein gwasanaethau.
- **Gwelliant Parhaus:** Rydym yn ymdrechu i ddysgu a thyfu o bob profiad.

## LLYWODRAETHU A SICRHAU ANSAWDD

- **Monitro Ansawdd:** Rydym yn adolygu ein gwasanaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni safonau uchel.
- **Cyfranogiad mewn Gwneud Penderfyniadau:** Mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau i helpu i arwain ein gwasanaethau.




## CWYNION A CHANMOLIAETH

- **Cyfathrebu Agored:** Rydym yn croesawu adborth ac mae gennym weithdrefn gwyno ffurfiol i fynd i'r afael â phryderon.
- **Dathlu Llwyddiant:** Rydym yn rhannu canmoliaeth gyda'n tîm i hyrwyddo arferion gorau.

## DOLENNI

- **Datganiad o Ddiben:** Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth fanwl am Wasanaeth Maethu Dewi Sant a'i ddiben fel Asiantaeth Maethu Gwirfoddol.
- **Taflen "Dweud Eich Dweud":** Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am sut allwch chi siarad â ni yn Dewi Sant os oes gennych adborth yr hoffech chi ei roi i ni.

### Ein Gwerthoedd

**Drws Agored –** Rydym yn croesawu pawb sydd eisiau helpu plant i ddod o hyd i gartref cariadus.
**Croeso Gwirioneddol:** Rydym bob amser yn gyfeillgar ac yn onest.
**Golwg Ysbrydoledig:** Rydym yn greadigol ac yn ceisio gwella ein gwasanaethau bob amser.
**Canllaw Cyfrifol:** Rydym yn cefnogi ac yn arwain teuluoedd i'w helpu i feithrin perthnasoedd cryf.
**Gweithiwr Proffesiynol Cefnogol:** Rydym yma i gynnig arbenigedd a'n cefnogaeth.

## SUT I GYSYLLTU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch, gallwch chi neu'ch teulu gysylltu â ni unrhyw bryd. Rydym yma i'ch helpu a sicrhau bod eich taith fabwysiadu yn un hapus a llwyddiannus.

**Gwasanaeth Maethu Dewi Sant**
**Tŷ Lambourne, Parc Busnes Llanisien,**
**Caerdydd, CF14 5GL**

029 2066 7007

info@stdavidscs.org

- Rydym wedi cofrestru gydag **Arolygiaeth Gofal Cymru.**

www.arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-â-ni

**Unigolyn Cyfrifol:** Jason Baker (Prif Swyddog Gweithredol)

Cofiwch, yng Ngwasanaeth Maethu Dewi Sant, nid ydych ar eich pen eich hun. P'un a ydych chi'n ystyried maethu neu'n chwilio am gymorth ar ôl maethu, rydym ni yma i helpu.

*Swyddfa Gofrestredig: Tŷ Lambourne, Parc Busnes Llanisien, Caerdydd CF14 5GL Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant wedi'i chofrestru fel elusen gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (Rhif Cofrestru: 509163) a chwmni cyfyngedig trwy Warant (Cofrestrwyd Caerdydd 1546688) Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant yw enw brand gwasanaeth mabwysiadu Cymdeithas Plant Dewi Sant.*